# Sut mae safbwyntiau seicolegol yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant:

## Y dull seicogymdeithasol

| Dull a damcaniaethwyr | Y prif agweddau ar y dull neu'r ddamcaniaeth sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant | Cymhwyso'r dull ar gyfer ymarferwyr gofal plant ac addysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau |
|---|---|---|
| **Seicogymdeithasol:**<br><br>Erikson<br><br>**Geiriau allweddol:**<br><br>- Dilyniant<br>- Gwrthdaro<br>- Cam seicolegol<br>- Ymreolaeth<br>- Menter | • Datblygodd Erikson ddamcaniaeth 'datblygiad seicogymdeithasol'.<br>• Yn wahanol i Freud a oedd yn teimlo mai ein greddfau biolegol oedd yn bennaf gyfrifol am ein hymddygiad, pwysleisiodd Erikson mai rhyngweithio cymdeithasol oedd y grym gyriadol.<br>• Credai Erikson fod personoliaeth plentyn yn datblygu fesul cam, a disgrifiodd y rhyngweithio cymdeithasol rhwng unigolion drwy gydol eu hoes a rôl cydberthnasau mewn datblygiad cymdeithasol.<br>• Credai Erikson fod pob cam datblygu yn adeiladu ar y cam blaenorol mewn dilyniant. Yn ystod pob cam, ceir gwrthdaro sy'n seiliedig ar ddatblygu, neu fethu â datblygu, i gyrraedd cam seicolegol newydd. Wrth i'r unigolyn lwyddo i reoli'r gwrthdrawiadau hyn, bydd yn datblygu cryfderau seicolegol newydd. Fodd bynnag, gall methu â delio â'r gwrthdrawiadau hyn olygu na fydd yr unigolyn yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i feithrin ymdeimlad cryf o'i hunan. | **Cam 1:** Ymddiriedaeth yn erbyn diffyg ymddiriedaeth (genedigaeth hyd at 1 oed). Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y baban yn ei chael hi'n anodd meithrin ymddiriedaeth yn y byd. Teimlai Erikson fod plant yn dysgu ymddiried pan fydd gofalwyr yn feithringar, yn ymatebol ac yn ddibynadwy.<br><br>**Cam 2:** Ymreolaeth yn erbyn cywilydd ac amheuaeth (18 mis hyd at 3 oed). Caiff y cam hwn ei ddangos drwy ddymuniad cynyddol y plentyn i ddarganfod. Mae athrawon yn helpu plant drwy ddeall anghenion y plentyn am annibyniaeth a dibyniaeth, a thrwy gefnogi'r plentyn i ystyried y byd o'i hamgylch o leoliad diogel. Credai Erikson os na fydd hyn yn digwydd, yna bydd y plentyn yn teimlo cywilydd ac amheuaeth.<br><br>**Cam 3**: Menter yn erbyn euogrwydd (3 hyd at 6 oed). Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y plentyn yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd, defnyddio iaith i ofyn cwestiynau a rhyngweithio â chyfoedion. Fodd bynnag, bydd y plentyn yn parhau i ddibynnu ar y cysur a'r diogelwch a ddarperir gan athrawon. Os bydd ymdeimlad o fenter sy'n datblygu plentyn yn cael ei esgeuluso neu ei anwybyddu, credai Erikson y gallai ddechrau dangos arwyddion o ymddygiad ymosodol, boed hynny'n gorfforol neu ar lafar. |